



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESANT **GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE**

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru  
**6<sup>ed</sup> Medi 2017**  
**9:30 – 12:30**  
**Yr Optic, Parc Busnes Llanelwy**

**Yn bresennol:** Cyng. Gareth Roberts, Bethan Jones Edwards, David Worrall, Mary Wimbury, Margaret Hanson, Teresa Owen, Jane Davies (ar ran Neil Ayling), Cyng. Joan Lowe, Clare Field, Caroline Turner, Vin West, Richard Debicki, Cyng. Llinos Medi Huws, Cyng. Bobby Feeley, Morwena Edwards, Nicola Stubbins, Lynda Colwell, Rob Smith, Wendy Jones, Cyng. Liz Roberts, Ruth Whittingham (nodiadau).

**Ymddiheuriadau:** Richard Weigh, Jenny Williams, Neil Ayling (Jane Davies yn dirprwy), Cyng. Christine Jones, Dawn Docx, Debbie Shaffer

**Yn bresennol:** Christopher Stevens, Matthew Hall – Llywodraeth Cymru  
Richard Palmer, DEWIS Cymru

<b>Eitem</b>	<b>Nodiadau</b>	<b>Camau gweithredu</b>
<b>1.</b>	<p><b><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u></b> Croesawodd y Cyng. Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaed cyflwyniadau ac fe nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Nododd y cadeirydd, gan fod amser wedi'i gyfyngu ar gyfer eitemau ar y rhaglen, lle mae adroddiadau yn y pecyn, dim ond cyflwyniad cryno a fydd yn cael eu rhoi ar bapurau gan gyflwynwyr, gan y bydd aelodau'r Bwrdd wedi darllen y papurau.</p> <p>Croesawodd y cadeirydd Chris Stevens a Matthew Hall, a oedd yn mynychu ar ran Adran Partneriaethau ac Integreiddio Llywodraeth Cymru.</p>	
<b>2.</b>	<p><b><u>Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</u></b> Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 2 Mehefin fel cofnod cywir. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 21 Gorffennaf fel cofnod cywir.</p> <p><b><u>Negeseuon Allweddol</u></b> – er gwybodaeth</p>	

<p>3.</p>	<p><u>Ffrydiau gwaith â Blaenoriaeth BPRh – cynlluniau cwmpas a darparu i'w cefnogi gan y Bwrdd:</u></p> <p><u>Plant gydag Anghenion Cymhleth – Clare Field</u>  Mae Bwrdd Trawsnewid Plant BIPBC wedi bod yn arwain ar hyn i fodloni gofynion SSWBA. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Grŵp Arweinyddiaeth diweddar ac fe'i diweddarwyd wedyn. Penderfynwyd nad y Bwrdd Trawsnewid Plant oedd y fforwm gorau i drafod yr agwedd benodol hon a bydd is-grŵp yn gyrru'r gwaith ymlaen o fewn gwasanaethau cymunedol. Mae grŵp Penaethiaid Plant Gogledd Cymru yn awyddus i fod yn rhan o'r is-grŵp i ddatblygu'r gwaith hwn. Bydd cynllun prosiect wedi'i ddiweddarau'n cael ei gyflwyno, sy'n cynnwys mwy o bwyslais ar ofynion y SSWBA.</p> <p>Cadarnhawyd mai un prif dasg yr is-grŵp fyddai cytuno ar ddiffiniad lleol o Blant ag Anghenion Cymhleth.</p> <p>Byddai MH yn croesawu agenda ataliol estynedig gan gynnwys adran benodol mewn perthynas â beth yn union sy'n cael ei atal. Awgrymodd MH hefyd y dylid cynnwys datganiad cadarnhaol mewn perthynas â'r cam pontio o fod yn Blentyn i fod yn Oedolion.</p> <p>Cadarnhaodd CF y ceisiwyd cynnwys yr agenda ataliol yng nghefnidir y ddogfen hon a thrafodir y sylwadau mewn perthynas â throsglwyddo ymhellach.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gymeradwyo'r cwmpas a'r ddarpariaeth, a bod adroddiad prosiect / amlygu mwy manwl gyda rhagor o wybodaeth am amserlenni, sefydlu'r is-grŵp hwnnw ac ati yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf.</p> <p><u>Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth, yn cynnwys Dementia – Rob Smith</u>  Cadarnhaodd RS fod cynllun cwmpas a darparu Pobl Hŷn yn mynd rhagddo. Mae'r Bwrdd lechyd eisoes yn datblygu ei strategaeth Pobl Hŷn ei hun ac yn ymgysylltu â phartneriaid. Mae cyfarfod rhwng arweinwyr strategaeth pobl hŷn Awdurdod Lleol a PBC wedi'i drefnu 13.09.17 i drafod symleiddio'r ddwy strategaeth ar wahân hyn sy'n mynd i'r afael â materion tebyg. Bydd hyn yn sicrhau na fydd ffrydiau gwaith eraill yn torri ar draws a bydd y gwaith yn cael ei gyfuno â dulliau i fesur llwyddiant ac effaith.</p> <p>Mae dogfennau Heneiddio'n Dda'r awdurdod lleol sy'n ymwneud â Phobl Hŷn yn esiampl o waith a wnaed mewn partneriaeth â HB a gellid dyblygu'r model hwn ar gyfer y gwaith hwn.</p>	<p>Adroddiad wedi'i ddiweddarau'n cael ei gyflwyno gan yr is-grŵp— Bethan Jones BIPBC i sicrhau fod yr adroddiad ar gael</p>
-----------	--	--

	<p>Diolchodd ME i bawb am eu sylwadau. Mae llawer iawn o waith wedi mynd i'r adroddiad hwn gyda'r gwasanaeth yn wynebu cymaint o heriau e.e. 3ydd sector gyda 5 diwrnod mewn ystafell. Pwrpas y papur yw ceisio mapio'r gwaith sydd eisoes yn digwydd, nodi bylchau a chyda elfennau arbenigol ac integreiddio, i ddatblygu grwpiau newydd a / neu ddylanwadu ar grwpiau sy'n bodoli eisoes i dynnu sylw at y materion hyn.</p> <p>Pryderon a godwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwysleisiodd cynrychiolwyr y trydydd sector y cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael gan y Trydydd sector, darparwyr a phartneriaid y gellid eu defnyddio i gryfhau'r adroddiad.</li> <li>• Dim adlewyrchiad o genedlaethau'r dyfodol yn y papur hwn na llais y Person Hŷn, gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn.</li> <li>• Angen dull llawer mwy radical o integreiddio gwasanaethau ac mewn partneriaeth.</li> </ul> <p>Bydd ymyrraeth ac atal dros 50 oed yn creu newid diwylliannol i bobl hŷn i gymryd mwy o gyfrifoldeb, a gallai amser a neilltuir i'r grŵp hwn arwain at gynaliadwyedd yn y dyfodol o fewn y gwasanaeth pobl hŷn.</p> <p>Roedd RS ac ME yn croesawu'r sylwadau defnyddiol a fydd yn cael eu hystyried wrth drafod yr adroddiad ymhellach.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd bod angen gwneud rhagor o waith ar yr adroddiad cwmpas a darparu hwn, a drafodir ymhellach yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Adroddiad wedi'i ddiweddarau i'w gyflwyno 04.10.2017</p>
<p>4.</p>	<p><u>Diweddariad LIC ar Waith Partneriaeth ac integreiddio</u> Chris Stevens, Pennaeth Partneriaethau ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru Matthew Hall, Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru</p> <p>Mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod Cadeiryddion BPRh gyda'r Gweinidog, Rebecca Evans ym mis Gorffennaf. Maent hefyd yn ymwybodol o waith da'r rhanbarthau i gwblhau'r Aseiad Poblogaeth a dylid llongyfarch hyn. Y camau nesaf yw'r Cynllun Ardal ar y Cyd a fydd yn gosod yr agenda i fynd â phartneriaethau rhanbarthol ymlaen ar y gwasanaethau i'w cyflwyno mewn partneriaeth yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Mae LIC wedi sefydlu tîm yn cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru i drafod y Cynllun Ardal ar y Cyd i weithredu gwasanaethau integredig sydd i'w cyflwyno. Bydd aseiad cyfun</p>	

	<p>o Gymru gyfan a fydd yn cael ei rannu gyda'r partneriaethau rhanbarthol a dylai hyn lunio'r defnydd o unrhyw arian grant gan Lywodraeth Cymru. Bydd trefniadau adrodd mewn perthynas ag ICF yn dangos y cynnydd a wnaed ledled Gogledd Cymru.</p> <p>Cadarnhaodd MH, fel rhan o agenda diwygio Llywodraeth Leol, y bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o ranbarth Cwm Taf.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rheoliadau a bydd y newidiadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Symud dyddiad adroddiad blynyddol BPRh i fis Mai / Mehefin</li> <li>• Archwilio tai a sut maent yn cysylltu â'r BPRh</li> <li>• Darparu mwy o eglurder ar Gronfeydd Cyfun sydd wedi bod yn rhwystr sylweddol hyd yn hyn i integreiddio'n llwyddiannus</li> </ul> <p>Pryderon cyffredinol a godwyd ar gyfer Byrddau Partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllidebau cyfun - arweiniad yn rhy annelwig ac nid oes digon o eglurder gan Lywodraeth Cymru</li> <li>• Cyllid ICF - nid yw'r arweiniad yn glir.</li> </ul> <p>Trafodwyd hefyd:</p> <p>Nododd cydweithwyr LIC y bydd Gofal Cymdeithasol yn dod yn rhan o'r agenda Diwygio Llywodraeth Leol.</p> <p>Mae angen llythyr ymateb i'r Gweinidog mewn perthynas â chyllidebau cyfun erbyn diwedd mis Medi. Nododd cydweithwyr LIC fod angen i'r ymateb hwn fod yn adlewyrchiad onest gan nodi'n glir y camau a gymerir a'r ffordd ymlaen.</p> <p>Bydd LIC yn manteisio ar y cyfle i ddiwygio'r Canllawiau Statudol a chaiff y rhain eu cryfhau mewn perthynas â'r gofynion ynghylch cyllidebau cyfun. Gofynnodd MH a oedd gan LIC farn ar y strwythur llywodraethu islaw'r BPRh. Ymatebodd cydweithwyr LIC fod yna drefniadau gwahanol ar draws Cymru, gyda phob un ohonynt â'u cryfderau a'u gwendidau.</p> <p>Nododd LIC hefyd y byddai sefydlu Fforwm Gwerth Cymdeithasol a gwaith y fforymau hyn yn llywio gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.</p>	<p>Llythyr i'r Gweinidog erbyn diwedd Medi 17 - BJE</p>
<p><b>5.</b></p>	<p><u>Cyllidebau Cyfun – Nicola Stubbins</u> Cyflwynodd NS adroddiad Cyllidebau Cyfun manwl sy'n ymdrin â'r holl faterion a godwyd yng nghyfarfod Mehefin o BPRhGC - "nad yw'r adroddiad yn rhoi synnwyr o'r gwahaniaeth rhwng gofynion y Ddeddf o ran cael cyllideb gyfun ar gyfer cartrefi gofal a'r hyn a all fod yn digwydd mewn gwirionedd", a mynd i'r afael</p>	

<p>â'r gofynion risg a darparu ymateb arfaethedig i lythyr y Gweinidog.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn hefyd yn myfyrio ar Ddiwygio Llywodraeth Leol a'r papur gwyn sy'n cyflwyno cyfres o gwestiynau mewn perthynas â heriau gweithio rhanbarthol.</p> <p>Sefydlwyd Gweithgor Cyllidebau Cyfun (GCC) gyda chynrychiolwyr o'r 6 awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys swyddogion â gwybodaeth arbenigol - ymgynghorydd cyfreithiol pwrpasol, cefnogaeth personél AD a chefnogaeth cyfrifeg yn ogystal â staff gwasanaeth.</p> <p>Gofynnwyd i'r grŵp greu cyfres o opsiynau i ddatblygu Cyllidebau Cyfun â dull hyblyg, wrth fod yn ymwybodol bod Cyllideb Gyfun yn offeryn i ddarparu integreiddio a fyddai'n gwella canlyniadau i ddinasyddion.</p> <p><u>Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol</u> Mae'r Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol wedi'i gwblhau a'i gytuno gan arweinwyr cyfreithiol ar gyfer y 6 Awdurdod Lleol ac Adran Gyfreithiol y GIG. Y cam nesaf yw mynd ymlaen i lofnodi ac i'r Bwrdd heddiw gymeradwyo'r Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol fel y gall pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd symud ymlaen i gymryd y cytundeb hwn trwy eu proses lywodraethu eu hunain ar gyfer llofnod.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol. Mae pob awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â chymryd hyn trwy eu proses lywodraethu eu hunain ar gyfer llofnod.</p> <p><u>Cronfa Gofal Integredig (ICF)</u> Datblygwyd cytundeb partneriaeth drafft ar gyfer yr ICF gan y GCC. Y cam nesaf yw cytuno ar y drafft a mynd ymlaen i lofnodi a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo hyn mewn perthynas â'r Cytundeb ICF.</p> <p>Mae gan ICF swm penodol o arian gyda chanllawiau clir ar sut y dylid ei wario. Yn flaenorol bu gofyniad am Femorandwm Dealltwriaeth, fodd bynnag, mae LIC bellach yn argymhell cytundeb partneriaeth yn y Canllawiau Statudol.</p> <p>Dywedodd WJ na fyddai'n gallu cymeradwyo gan nad yw'r Trydydd Sector yn rhan o'r cytundeb ac y byddent yn ymatal. Teimlai MW mewn sefyllfa debyg, ond mae ganddi ddiddordeb gweithredol a byddai'n dymuno cael ei chynnwys mewn trafodaethau.</p>	<p>Pob A.LI. a GIG i symud drwy'r RIA, drwy eu proses lywodraethu eu hunain.</p>
---	--

<p>Eglurodd NS nad yw'r Cytundeb Partneriaeth ICF yn nodi at beth y defnyddir yr arian ICF. Mae ICF eisoes wedi ymrwymo ac yn ariannu gwasanaethau yn y Trydydd Sector a'r sector annibynnol.</p> <p>Cododd LLM ei phryderon wrth drafod y materion uchelgeisiol hyn ar lefel strategol, gan nad oes sicrwydd y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth ar lefel weithredol yn ein cymunedau.</p> <p>Mae llawer o adnoddau wedi'u hymrwymo i wella gwasanaethau rhanbarthol ac isranbarthol ac mae her enfawr i newid darpariaeth gwasanaeth.</p> <p>Dywedwyd bod graddfa a chymhlethdod cyllidebau cyfun yn wahanol iawn pan gaiff ei wneud yn lleol o'i gymharu â rhanbarthol. Mae gan Wynedd enghreifftiau o dimau integredig o fewn yr awdurdod lle mae cyllidebau cyfun wedi gwella'r gwasanaeth, ond mae hyn ar lefel isranbarthol.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gymeradwyo cytundeb Partneriaeth y Gronfa Gofal Integredig, i'w chwblhau a'i symud ymlaen ar gyfer llofnodion trwy lywodraethu pob partner.</p> <p><u>Grant Ariannu Pontio Gofalwyr</u> Mae integreiddio gwasanaethau i Ofalwyr yn faes blaenoriaeth yn Rhan 9 o'r SSWBA ar gyfer integreiddio. Dyma'r flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer grant Pontio Gofalwyr a'r argymhelliad i'r bwrdd hwn yw bod cytundeb partneriaeth yn cael ei gwblhau i ategu at y broses o reoli'r grant hwnnw. Mae darn ehangach o waith ar y gweill i fapio gwasanaethau cyfredol ar gyfer gofalwyr a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r BPRh maes o law ar y canfyddiadau. Gofynnir am sefyllfa'r Bwrdd lechyd mewn perthynas â grant y Gofalwyr.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gymeradwyo cytundeb partneriaeth Grant Cyllid Pontio Gofalwyr hyd nes y ceir trafodaethau pellach gyda'r Bwrdd lechyd.</p> <p><u>Plant ag Anghenion Cymhleth</u> Mae BJ yn arwain ar y maes gwaith hwn ac mae is-grŵp yn cael ei sefydlu. Un o'r ffrydiau gwaith fydd cytuno ar ddiffiniad rhanbarthol a diffinio cwmpas y maes gwaith hwn a allai arwain at gyllideb gyfun.</p> <p>Gofynnwyd am ddiweddariad ar y cwmpas a'r ddarpariaeth ac yn arbennig y gwaith gan yr is-grŵp, gan BJ / CF ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p> <p><u>Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig (IFSS)</u></p>	<p>Cyfarwyddwr a chydweithwyr HB i weithredu hyn.</p>
--	---

Mae trefniadau isranbarthol eisoes wedi'u sefydlu yn y Dwyrain a'r Gorllewin. Bydd angen trafodaeth bellach yng Nghonwy a Sir Ddinbych i fodloni'r gofynion deddfwriaethol. Y cais yw i'r Bwrdd gymeradwyo bod yr ymagwedd isranbarthol bresennol o ran yr IFSS yn parhau.

Cysylltwyd â LIC i gael eglurhad ynghylch a oes angen cyllideb gyfun ranbarthol ond rydym yn aros am ymateb ar hyn. Bydd Chris Stevens (LIC) yn sicrhau y bydd cydweithwyr Llywodraeth Cymru yn dod yn ôl at BJE i gadarnhau'r gofynion.

Roedd y Bwrdd yn cytuno i gymeradwyo trefniadau cyfredol yr IFSS.

Dyma feysydd newydd lle mae cyllidebau cyfun yn cael eu harchwilio:

- Ffordd Gwynedd. Mae Bwrdd Iechyd Ardal Gwynedd a'r Gorllewin yn chwilio am gartrefi gofal ac adnoddau cymunedol yn ardal Tywyn.
- Lleoliadau Cartrefi Gofal Adran 117. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Iechyd a CBSC a fydd yn peilota. Aros am drafodaethau pellach gydag iechyd i symud ymlaen.
- Gallu Gofal Cartref Sir y Fflint â blaenoriaeth i gryfhau'r sector cartrefi gofal. Bydd CSyFf yn cydweithio â BIPBC i ddatblygu cyllideb gyfun ar y cyd sy'n canolbwyntio ar gynyddu gallu cartrefi gofal yn ardal Sir y Fflint.

Mae'r holl ardaloedd newydd yn amodol ar werthusiadau opsiynau i dynnu sylw at y manteision a'r risgiau.

Roedd y Bwrdd yn cytuno i symud ymlaen â datblygu Cyllidebau Cyfun yn yr ardaloedd uchod.

#### Ymateb arfaethedig i'r Gweinidog

Mynegwyd pryder bod BIPBC yn bwriadu mynd allan i dendr i ail gomisiynu darpariaeth cartrefi gofal a byddai'n tynnu'n ôl o'r cytundebau presennol. Ni fu unrhyw drafodaethau ffurfiol gyda phartneriaid ar hyn. Os felly, bydd HB yn cymryd cyfeiriad gwahanol i ddisgwyliadau LIC o fewn y Ddeddf. Mae angen i'r HB fod yn ymwybodol y gallai newidiadau i'r ffordd y mae cartrefi gofal yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd ddadsefydlogi'r sector cartrefi gofal yn sylweddol, a pheri goblygiadau i'r bartneriaeth.

Dywedodd RS nad yw'r HB wedi comisiynu cartrefi gofal yn iawn yn y gorffennol ac maen nhw'n gweithio y tu allan i'w rheolau ariannol / contract.

	<p>Mynegodd MW bryderon nad yw cartrefi gofal wedi cymryd rhan briodol yn y newidiadau i'r cytundeb cyn-leoli terfynol. Mae MW yn deall na fydd adran gyfreithiol yr Awdurdod Lleol mewn sefyllfa i ymateb tan fis Medi. Dywedodd cydweithwyr LIC y dylid nodi'r pwyntiau canlynol yn yr ymateb i'r Gweinidog:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r rhanbarth yn archwilio Cyllidebau Cyfun mewn ystod o ardaloedd ac ar lefelau lleol ac isranbarthol a fydd yn cael eu gwerthuso, a dylid cynnwys enghreifftiau o'r hyn sy'n datblygu yn y rhanbarth yn yr ymateb i'r Gweinidog.</li> <li>• Mae dulliau isranbarthol yn cyd-fynd ag ethos y Ddeddf.</li> <li>• Codwyd pryder gan Awdurdodau Lleol o groesgymorthdalau</li> <li>• Cyfeirio at yr heriau i'r rhanbarth gyda chyllidebau cyfun sy'n datblygu.</li> </ul>	
6.	<p><u>Ariannu'r Trydydd Sector – Dave Worrall</u> Gofynnodd y Cadeirydd i ohirio'r eitem hon ar y rhaglen tan y cyfarfod nesaf. Dywedodd DW fod y Trydydd Sector yn falch iawn o gael bod yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r adroddiad hwn ac yn siomedig y bydd yr eitem yn cael ei gohirio. Ni fydd DW yn y cyfarfod nesaf felly cytunwyd i'w chynnwys yn rhaglen Tachwedd.</p>	Ei rhoi ar raglen Tachwedd 17
7.	<p><u>Diweddariad rhaglen Marchnad/5 diwrnod mewn ystafell – Rob Smith</u> Cytunwyd gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf</p>	Ei rhoi ar raglen 4.10.17
8.	<p><u>Trosolwg o'r Gronfa Gofal Sylfaenol – Morag Olsen</u> Nid oedd MO yn y cyfarfod, ac ni ofynnwyd i unrhyw un a oedd yn bresennol i gyflwyno'r papur. Cytunwyd bod yr eitem hon wedi'i gohirio tan y cyfarfod nesaf. Nododd y Cadeirydd, pan fo papurau ar y rhaglen, y dylai cyflwynwyr fynyachu neu drefnu i aelod arall o'r Bwrdd gyflwyno ar eu rhan.</p> <p>Nododd CS (LIC) ei fod yn siomedig na fyddai'r eitem hon yn cael ei thrafod heddiw gan ei fod yn edrych ymlaen at weld sut mae'r Gronfa Gofal Sylfaenol a'r ICF yn cael eu defnyddio ar y cyd fel y mae LIC wedi argymhell.</p>	Ei rhoi ar raglen 4.10.17
9.	<p><u>DEWIS Cymru – Richard Palmer</u> Rhoddodd Richard Palmer gyflwyniad cynhwysfawr ar borth DEWIS, sef yr ateb i fynd i'r afael ag IAA o fewn y Ddeddf. Mae Dewis Cymru yn rhydd i'w ddefnyddio ac fe'i ariennir gan 21 awdurdod lleol, mae un awdurdod wedi gwrthod ymgysylltu. Dewis Cymru yw'r wefan i gael gwybodaeth am sefydliadau, lles a pha faterion sy'n ymwneud â lles yng Nghymru i unigolion.</p>	



	<p>Yr her fwyaf oedd edrych ar ffyrdd arloesol o dargedu gwahanol gynulleidfaedd i roi eu gwasanaethau ar DEWIS. Gellir chwilio ar y wefan trwy ddefnyddio codau post.</p> <p>Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd y gwasanaeth hwn i ddarparu gwybodaeth a chynghor i gynorthwyo lles ein dinasyddion.</p>	
	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Cadarnhaodd BJE y byddai Cylch Gorchwyl BPRhGC yn eitem ar raglen y cyfarfod nesaf ac mae holl gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan Cydweithio Rhanbarthol unwaith y ceir cytundeb y Bwrdd.</p>	
<b>16.</b>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>4 Hydref 2017, 9:30 – 12:30, Yr Optic, Parc Busnes Llanelwy</p>	